

Cronfa Adfywio Cymunedol y DU: prospectws 2021-22

Rhagair y Gweinidog

Nawr yw'r amser cywir i baratoi at ein hadferiad cenedlaethol yn dilyn pandemig COVID-19.

Rydym eisiau i bobl ym mhob rhan o'r DU i weld, teimlo, a chael profiad o'r buddion wrth i ni ddod yn ôl ar ein traed a chodi'r safon.

Nawr ein bod wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r cyfleoedd i gyflawni'r uchelgais hon yn ein dwylo ni. Bydd buddsoddiadau o Gronfeydd Strwythurol yr UE yn parhau i gael eu gwario gan ardaloedd lleol hyd at 2023 ac mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i roi o leiaf arian cyfatebol i dderbyniadau gan yr UE drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU newydd, sydd ar gyfartaledd yn cyrraedd oddeutu £1.5 biliwn y flwyddyn. Bydd y Gronfa newydd hon, sydd i'w lansio yn 2022, yn gweithredu ledled y DU ac yn chwarae rhan yn uno a chodi safon y wlad gyfan.

Mae hyn y fwy na disodli rhywbeth gyda rhywbeth cyffelyb. Gallwn fynd y tu hwnt i gyfyngiadau cyllid yr UE gydag olynydd i'r trefniadau hynny wedi'i deilwra'n llawer gwell i anghenion a dyheadau ein gwlad ein hunain. Rhoi ffocws go iawn i'n blaenoriaethau domestig i bobl a lleoedd drwy hyrwyddo dealltwriaeth leol, a chael gwared ar gategoriâu gwario sy'n cyfarwyddo'n ormodol, a lleihau biwrocratiaeth.

Dyma beth fydd pwrpas Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae ei gweledigaeth hirdymor, a fydd yn cael ei nodi yn Fframwaith Buddsoddi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, wedi'i dylunio i wella cyllid ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi pobl a lleoedd ledled y DU, yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau domestig, tyfu economïau lleol, a rhoi bywyd newydd yn ein cymunedau.

Ac i sicrhau bod cymunedau lleol yn y sefyllfa orau i wneud hyn, rydym yn dechrau gwaith nawr, gyda Chronfa Adfywio Cymunedol y DU ar gyfer 2021-22 - buddsoddiad ychwanegol o £220 miliwn. Bydd y Gronfa hon, sy'n cael ei hamlinellu yn y prospectws hwn, yn cefnogi ardaloedd lleol i roi dan brawf dulliau gweithredu dychmygol a rhaglenni sy'n datgloi eu potensial, rhoi balchder, a'u paratoi i gymryd mantais lawn o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU pan fydd yn lansio yn 2022.

Cydnabyddwn fod gan bob maes ei heriau unigryw ei hun sy'n gofyn datrysiadau unigryw. Felly bydd pob peilot yn grymuso lleoedd i archwilio'r ffordd orau i fynd i'r afael â heriau lleol - boed hynny drwy adeiladu sgiliau, cefnogi busnesau lleol, cefnogi cymunedau a lleoedd, neu ddarparu cymorth cyflogaeth - i adeiladu cymunedau lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld â nhw, gan ganiatáu'r llywodraeth i werthuso'r ffordd orau i sicrhau bod y wlad gyfan yn codi'r safon.

Mae cyfle go iawn i gynorthwyo i adeiladu'r wlad fwy diogel, gwyrdd, llewyrchus a chymdogol yr ydym ni gyd eisiau ei gweld ar ôl Covid. Ynghyd â chydweithwyr y Cabinet y byddaf yn gweithio gyda nhw i gyflwyno'r Gronfa, gan gynnwys Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau a'r Ysgrifennyddion Gwladol dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon - rwy'n edrych ymlaen at weld creadigedd ac uchelgais y cynigion a gawn i gynorthwyo i wireddu cenhadaeth y Llywodraeth hon i godi'r safon ym mhob rhan o'n Teyrnas Unedig drwy'r Gronfa hon a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU a fydd yn ei dilyn.

Y Gwir Anrhydeddus Robert Jenrick AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

1. Cyflwyniad

Mae ymadawriad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn gyfle hanesyddol i adeiladu economi cynhyrchiol a llewyrchus sy'n addas at y dyfodol ac sy'n gweithio i bob unigolyn, cymuned a chenedl ledled y Deyrnas Unedig. Wrth i ni ddod yn ôl ar ein traed wedi pandemig COVID-19, bydd y llywodraeth yn cyflawni twf sy'n codi'r safon o ran cyfle, yn cydfynd â'n hamcanion sero net ac yn sefydlu ein statws fel Prydain Fyd-eang.

Mae ein cymunedau llewyrchus yn ffurfio rhan sylweddol o strwythur bywyd yn y DU. Mae gwahaniaethau economaidd yn parhau i fodoli rhwng rhannau gwahanol o'r Deyrnas Unedig, o'n dinasoedd i hen gymunedau diwydiannol, cymunedau gwledig ac arfordirol. Mae gan anghydraddoldebau oblygiadau go iawn. Maent yn effeithio ar fywydau pobl drwy eu tâl, cyfleoedd gwaith, iechyd a chyfleoedd mewn bywyd.

Bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn brif bolisi wrth gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth hon i godi'r safon yn y wlad. Bydd yn targedu pobl a lleoedd sydd fwyaf mewn angen ledled y DU. Bydd yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethu domestig ac yn manteisio'r cyfleoedd sy'n cael eu hamlygu wrth i ni adael yr UE a biwrocratiaeth cronfeydd strwythurol yr UE.

Mae'r DU yn talu am gronfeydd strwythurol yr UE drwy ei chyfraniadau i Gyllideb yr UE, o arian trethdalwyr y DU. Bydd ardaloedd lleol yn parhau i wario buddsoddiad o gronfeydd strwythurol yr UE hyd at ddiwedd 2023. Oherwydd y ffordd mae'r cronfeydd hyn yn gweithredu, bydd lefelau buddsoddiad o gronfeydd strwythurol yr UE yn uwch ledled y Deyrnas Unedig ym mlwyddyn ariannol 2021-22 nag oeddynt yn 2020-21.

Yn ogystal â'r buddsoddiad hwn, i gynorthwyo'r DU i baratoi at gyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae'r llywodraeth hon yn darparu cyllid yn 2021-22 drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU. Nod y gronfa hon yw cefnogi ein cymunedau i roi rhaglenni a dulliau gweithredu newydd dan brawf, gan gyd-fynd â darpariaeth genedlaethol a lleol.

Nod Cronfa Adfywio Cymunedau y DU yw cefnogi pobl a chymunedau sydd fwyaf mewn angen ledled y DU, creu cyfleoedd i roi dulliau gweithredu a syniadau arloesol newydd dan brawf ar lefel leol. Drwy'r Gronfa hon, byddwn yn cryfhau'r berthynas rhwng llywodraeth y DU a lleoedd ledled y DU. Bydd llywodraeth y DU yn gweithio'n uniongyrchol â phartneriaid lleol, fel bod pobl sy'n adnabod eu lleoedd orau ar flaen ac wrth wraidd y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardaloedd a'u bywydau. Yn ogystal, bydd y Gronfa yn rhoi cyllid capasiti i gynorthwyo lleoedd i baratoi at gyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Mae'r prospectws hwn yn sefydlu ein huchelgais ar gyfer Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, gyda chanllawiau i gynorthwyo pobl i ddefnyddio'r cyllid.

1.1. Buddsoddi ar lefel leol: Ein cynnig i bobl a lleoedd

Mae bob lle yn wynebu cyfuniad unigryw o heriau a chyfleoedd. Mae hybu twf cynhyrchedd ledled y DU yn dibynnu ar ddiogelu gwybodaeth ac arbenigedd lleol a chyfalaf cymdeithasol. Mae sicrhau y gall yr holl leoedd gymryd mantais o dwf economaidd yn gofyn cefnogaeth wedi'i theilwra i'r rhwystrau unigol a wynebir ar lefel leol.

Gall buddsoddi ar lefel leol gynorthwyo i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl a lleoedd i gyflawni lefelau uwch o gynhyrchedd a mynd i'r afael ag anfantais i sicrhau bod ffyniant y dyfodol yn cael effaith ledled y DU. Mae hyn yn arbennig o wir wrth i ni ddod yn ôl ar ein traed yn gryfach ar ôl pandemig COVID-19. Ochr yn ochr â darpariaeth genedlaethol, gall buddsoddiad cyhoeddus targedig gynorthwyo i adfywio cymunedau, cefnogi eu hadferiad a hyrwyddo gwytnwch.

Rhaid i unrhyw fuddsoddiad gydnabod yr heriau a wynebir gan y bobl sy'n byw ynddynt a sicrhau bod pawb yn gallu cymryd mantais o dwf economaidd. Mae sicrhau bod gan bawb y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gymryd mantais o'r cyfleoedd yn eu hardal leol yn allweddol i rannu ffyniant. Eto, mae pobl yn wynebu rhwystrau gwahanol wrth ennill cyflogaeth a chael y sgiliau sydd eu hangen i fynd ymlaen mewn bywyd. Mae goresgyn yr heriau hynny yn gofyn cefnogaeth wedi'i theilwra i'r heriau mae pobl yn eu hwynebu ar lefel leol.

Mae'r peilotau hyn yn cyd-fynd â strategaeth y Llywodraeth i gefnogi pobl a lleoedd ledled y DU, sy'n awyddus i gryfhau perfformiad economaidd ein dinasoedd mawr, sbarduno canolfannau rhagoriaeth diwydiannol ledled y wlad yn y sectorau sy'n bwysig i economi'r dyfodol, a chefnogi ein trefi sy'n ei chael hi'n anodd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw le yn cael ei adael ar ôl. Mae'r cynnig presennol yn cynnwys:

- **Y Gronfa Codi'r Safon**, a fydd yn buddsoddi mewn isadeiledd lleol sy'n cael effaith weledol ar bobl a'u cymunedau a fydd yn cefnogi adferiad economaidd. Bydd y Gronfa yn cael ei rheoli ar y cyd gan Drysorlys EM, y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a'r Adran Drafnidiaeth. Mae hwn yn ddull gweithredu newydd i fuddsoddi mewn twf lleol - diweddu seilos yn Whitehall sy'n ei gwneud hi'n anodd ymgymryd â dull gweithredu holistig i anghenion ardaloedd lleol.
- **Bargeinion Dinesig a Thwf**, sy'n cael eu harwain yn lleol, gyda phartneriaid lleol yn gweithio gyda llywodraeth y DU, y Gweinyddiaethau Datganoledig a'r sectorau cyhoeddus a phreifat i ddatblygu cynigion, cyflawni ymyraethau a denu buddsoddiad i'n dinasoedd. Hyd heddiw, mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo mwy na £3 biliwn i'r Bargeinion.
- **Cynllun Swyddi**, y mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi cefnogaeth heb ei thebyg i gynorthwyo pobl ddiwaith ym Mhrydain Fawr i ddod o hyd i waith. Mae hyn yn cynnwys nifer o fesurau ar draws Prydain Fawr, megis dyblu'r nifer o anogwyr gwaith, y Cynllun Kickstart i gefnogi pobl ifanc sydd mewn risg o ddiweithdra hirdymor, a Cynnig Ieuencid ehangedig i bobl ifanc ar Gredyd Cynhwysol a buddsoddi mewn darpariaeth allanol drwy'r rhaglenni Job Entry Targeted Support a Job Finding Support i ehangu cymorth ymhellach. Yn ogystal, bydd y rhaglen Restart yn rhoi cymorth rheolaidd, personoledig ar gyfer hawlwr Credyd Cynhwysol yn Lloegr sydd wedi bod yn chwilio am waith ers dros flwyddyn. Bydd y Cynllun Swyddi yn cefnogi adferiad hirdymor o effaith economaidd heb ei thebyg COVID-19.
- **Porthladdoedd Rhydd**, sy'n rhoi cyllid i sefydlu Porthladdoedd Rhydd fel hybiau cenedlaethol ar gyfer masnach fyd-eang a buddsoddiad ledled y DU, hyrwyddo adfywiad a chreu swyddi a chreu magwrfa ar gyfer arloesedd a fydd yn dwysáu effaith economaidd ein porthladdoedd ac yn cynhyrchu mwy o weithgaredd economaidd ledled y DU.

- **Cronfa Perchnogaeth Gymunedol y DU**, a fydd yn grymuso cymunedau i ddiogelu asedau hanfodol cymunedol yn eu hardal drwy ddarparu cyllid i gymryd perchnogaeth drostynt, i gefnogi llesiant cymdeithasol cymunedau lleol.

Yn Lloegr, bydd y cyllid hwn hefyd yn cyd-fynd â'r rhaglenni canlynol a thrwy'r rhain mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi cael buddsoddiad drwy'r Fformiwla Barnett.

- **Cronfa Trefi**, sy'n darparu'r buddsoddiad cyhoeddus craidd ym Margeinion Trefi i hybu adfywiad economaidd trefi i fynd i'r afael â chyfyngiadau twf a chyflawni twf economaidd a chynhyrchedd hirdymor drwy adfywiad trefol, sgiliau a chysylltedd.
- **Cronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol**, sy'n cynorthwyo strydoedd mawr i esblygu ac addasu i newid, darparu buddsoddiad i adnewyddu ac ail-siapiro canol trefi a strydoedd mawr mewn modd sy'n gwella profiad, hyrwyddo cysylltiad cymdeithasol, hybu twf a sicrhau cynaliadwyedd y dyfodol.
- **Cronfa Getting Building**, sy'n targedu buddsoddi mewn ardaloedd sy'n wynebu'r heriau economaidd mwyaf o ganlyniad i'r pandemig, cefnogi i gyflawni prosiectau isadeiledd sy'n barod i'w hadeiladu, wedi'u cytuno â meiri a Phartneriaethau Mentrau Lleol i hybu twf economaidd, a hyrwyddo adferiad a swyddi lleol.
- **Bwtcamp Sgiliau**, sy'n cyflwyno rhaglen hyfforddiant hyblyg yn seiliedig ar anghenion sgiliau prin cyflogwyr/sectorau sydd naill ai'n cael eu rheoleiddio (h.y. yn seiliedig ar gymhwyster) neu heb eu rheoleiddio (h.y. i gyd-fynd â safonau diwydiannol). Ar hyn o bryd, maent yn ymdrin â sectorau digidol, technegol ac adeiladwaith.
- **Diwygio Addysg Bellach**, sydd â'r nod i gefnogi pobl i gael y sgiliau sydd eu hangen ar ein heconomi drwy gydol eu bywydau, lle bynnag maent yn y wlad. Bydd canolbwyntio ar sgiliau ôl-16 fel rhan o'r genhadaeth graidd hon yn cynyddu cynhyrchedd, cefnogi diwydiannau twf, a rhoi cyfleoedd i unigolion i ddatblygu yn eu gyrfaedd.

1.2 Symud ymlaen o Gronfeydd Strwythurol yr UE

Mae gadael yr Undeb Ewropeaidd yn gyfle i newid y ffordd yr ydym yn cefnogi ein pobl a'n lleoedd. Byddwn yn disodli cronfeydd strwythurol

yr UE gydag olynydd domestig sydd wedi'i deilwra i'r DU a'i blaenoriaethau o ran pobl a lleoedd.

Wrth ddylunio rhaglen newydd, pwysig oedd dysgu gwersi ac rydym wedi gweithio'n agos â rhanddeiliaid i ddeall sut allwn ddylunio cronfa sy'n bodloni ein blaenoriaethau yn well. Cynaliasom 25 digwyddiad ymgysylltu ledled y DU, a fynychwyd gan fwy na 500 o gynrychiolwyr o sectorau amrywiol, ac rydym yn parhau i weithio'n agos gyda busnesau, Awdurdodau Maerol Cyfunedig, Cynghorau Lleol, Partneriaethau Mentrau Lleol, sefydliadau addysg uwch, sefydliadau'r sector gwirfoddol ac elusennol, a grwpiau partneriaethau gwledig.

Mae'r adborth wedi bod yn gyson. Bydd ein cynnig i leoedd yn hyrwyddo dealltwriaeth leol, cael gwared ar gategoriâu gwario sy'n cyfarwyddo'n ormodol a lleihau biwrocratiaeth. Byddwn yn uchafu buddion gadael yr UE drwy:

- **Gyflwyno cyllid yn gyflymach** gan gynnwys darparu £220 miliwn i'w wario yn 2021-22 i gynorthwyo ardaloedd lleol i wyro oddi wrth gronfeydd strwythurol yr UE.
- **Targedu gwell** ar gyfer lleoedd sydd mewn angen, er enghraifft hen gymunedau diwylliannol, cymunedau arfordirol, ardaloedd gwledig a threfi difreintiedig, ac i bobl sydd fwyaf mewn angen cymorth ychwanegol.
- **Glynu wrth flaenoriaethau domestig yn well** gwyro oddi wrth ffocws ar echelau seilo â blaenoriaeth, sy'n cyfarwyddo'n ormodol a galluogi buddsoddiad cydlynol, mwy holistig yn seiliedig ar ddealltwriaeth leol.
- **Torri biwrocratiaeth feichus yr UE** gan gynnwys meithrin cynigion arloesol a lleihau ffurfiau a thargedau sydd wedi creu baich anghynladwy ac wedi arwain at ffocws ar allbynnau, nid canlyniadau.

Mae gan lywodraeth y DU gyfrifoldeb i gefnogi pobl, swyddi a chymunedau ar draws ein Teyrnas Unedig gyfan, yn arbennig yng nghyd-destun ein hadferiad ar ôl pandemig COVID-19. Drwy Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, gall llywodraeth y DU fuddsoddi mewn cefnogi cymunedau ledled y DU. Mae hyn yn arwain y ffordd am berthynas newydd rhwng llywodraeth y DU a phartneriaid lleol a fydd ar flaen ac wrth wraidd y gronfa hon.

Yn rhan fawr o brofi a threialu mae gwerthuso beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim yn gweithio cystal, er mwyn bwydo datblygiad y cyfrannau lleoedd a phobl sydd ynghlwm â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Bydd gwerthuso yn ganolog i'r broses hon o'r dechrau a dylid ei fewnosod yn elfen allweddol y cynigion. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn adran 5.2.3 ac adran 9 y prospectws.

1.3 Edrych ymlaen at Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Ein gweledigaeth hirdymor i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yw cryfhau a chreu cyfleoedd ledled y DU i bobl a lleoedd. Rydym eisoes wedi ymrwmo i gynyddu cyllid fel y bydd cyfanswm cyllid domestig y DU gyfan o leiaf yn cyfateb i dderbynyddion gan yr UE, ac ar gyfartaledd yn cyrraedd oddeutu £1.5 biliwn y flwyddyn. Bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cynnwys:

- Cyfran yn seiliedig ar leoedd a fydd yn targedu y lleoedd sydd fwyaf mewn angen ledled y DU, megis hen ardaloedd diwydiannol, trefi difreintiedig a chymunedau gwledig ac arfordirol. Bydd yn cefnogi pobl a chymunedau, yn agor cyfleoedd newydd ac yn sbarduno adfywiad ac arloesedd. Bydd yn galluogi buddsoddiad cydlynol, holistig i gefnogi cymunedau a phobl leol; a
- Bydd ail gyfran o'r Gronfa yn cael ei thargedu'n wahanol i'r bobl sydd fwyaf mewn angen drwy raglenni cyflogaeth a sgiliau unigryw sydd wedi'u teilwra i'r angen lleol. Bydd hyn yn cefnogi canlyniadau cyflogaeth gwell i'r rheiny mewn gwaith ac yn ddiwaith yng ngharfanau penodol o bobl sy'n wynebu rhwystrau yn y farchnad lafur.

Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion ynghylch hyn mewn Fframwaith Buddsoddi i'r DU gyfan yn hwyrach eleni a bydd y proffil yn cael ei gadarnhau yn yr Adolygiad Gwariant nesaf.

Bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â'r Gweinyddiaethau Datganoledig a phartneriaid lleol wrth i ni ddatblygu Fframwaith Buddsoddi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a chyn y cyhoeddiad hwn. Ein bwriad yw gweithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio yn y modd gorau ac yn cefnogi dinasyddion ledled y DU. Rydym wedi dangos yr ymrwymiad hwn drwy gadarnhau y bydd gan y Gweinyddiaethau Datganoledig le

yn y strwythurau llywodraethiant ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Bydd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn cynorthwyo i fod yn sail i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU drwy ariannu peilotau un flwyddyn, ond mae'r cronfeydd yn wahanol o ran dyluniad, cymhwysedd a hyd. Bydd cynigion llwyddiannus Cronfa Adfywio Cymunedol y DU ar gyfer 2021-22 yn unig.

2. Cronfa Adfywio Cymunedol y DU: Trosolwg

2.1 Amcanion Cronfa Adfywio Cymunedol y DU

2.1.1 Cefnogi trawsnewidiad didrafferth

Bydd y DU yn talu am gronfeydd strwythurol yr UE drwy ei chyfraniadau i Gyllideb yr UE a bydd ardaloedd lleol yn parhau i wario buddsoddiad o gronfeydd strwythurol yr UE hyd at ddiwedd 2023.

Oherwydd y ffordd mae'r cronfeydd hyn yn gweithredu, bydd lefelau buddsoddiad o gronfeydd strwythurol yr UE yn uwch ledled y DU ym mlwyddyn ariannol 2021-22 nag oeddynt yn 2020-21.

Yn ogystal â'r buddsoddiad hwn, rydym yn darparu £220 miliwn o gyllid ychwanegol drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU i'n cynorthwyo ni i wyro'n ddidrafferth oddi wrth raglen cronfa strwythurol yr UE. Bydd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn ein cynorthwyo ni i baratoi yn ystod 2021-22 ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU drwy roi dulliau gweithredu newydd ar brawf a thrwy ddarparu cyllid capasiti.

2.1.2 Galluogi arloesedd drwy beilotau

Bydd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn cefnogi ein cymunedau i roi rhaglenni a dulliau gweithredu newydd dan brawf cyn Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Drwy'r peilotau hyn, hoffem ddatgloi syniadau newydd a rhaglenni peilot i gefnogi pobl a chymunedau sydd mewn angen ledled y DU yn well.

Hoffem gefnogi ymatebion arloesol i heriau lleol ac angen lleol ledled y DU, gan gynnwys ardaloedd trefol, gwledig ac arfordirol. Rydym eisiau defnyddio Cronfa Adfywio Cymunedol y DU i brofi mwy o integreiddiad o fathau o ymyriadau a mwy o hyblygrwydd rhwng themâu buddsoddi na chronfeydd strwythurol yr UE.

Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar rwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio sgiliau a chyfleoedd yn y farchnad lafur leol, adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymyriadau'r dyfodol ac archwilio dichonolrwydd syniadau newydd.

2.1.3 Ffordd newydd o weithio rhwng llywodraeth y DU a lleoedd

Yn ogystal, mae Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn cynnig cyfle i ni i sefydlu ffordd newydd o weithio rhwng llywodraeth y DU a lleoedd. Hoffem weithio'n uniongyrchol â phartneriaid lleol ym mhob cenedl ledled y DU, gan roi pobl sy'n adnabod eu lleoedd orau ar flaen ac wrth wraidd penderfyniadau, a ffurfio perthynas newydd, uniongyrchol â llywodraeth y DU.

Gweler adran 5 am ganllawiau manwl ynghylch y model cyflawni.

2.1.4 Codi'r safon a chreu cyfle

Bydd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn broses gystadleuol heb unrhyw gymhwysedd wedi'i ragosod. Ym Mhrydain Fawr, i godi'r safon a chreu cyfle ledled y DU i bobl a lleoedd, rydym wedi adnabod 100 lle â blaenoriaeth yn seiliedig ar fynegai gwytnwch economaidd. Byddwn yn blaenoriaethu prosiectau sy'n targedu buddsoddiad i gymunedau mewn angen, yn enwedig yn y 100 lle â blaenoriaeth uchaf a darparu cyllid capasiti i'r [awdurdod sy'n arwain y 100 lle hyn](#).

Rydym yn ymgymryd â dull gweithredu gwahanol i gyflwyno'r Gronfa Adfywio Cymunedol yng Ngogledd Iwerddon, sy'n cymryd i ystyriaeth y tirlun llywodraeth leol gwahanol yng Ngogledd Iwerddon mewn cymhariaeth â Phrydain Fawr. Bydd dyraniad cenedlaethol wedi'i bennu ymlaen llaw i Ogledd Iwerddon, wedi'i osod ar £11 miliwn.

Gweler adran 4 am ragor o wybodaeth ynghylch y broses fuddsoddi a'r meini prawf i'r holl leoedd. Byddwn yn cyhoeddi nodyn methodolegol i egluro sut cafodd y mynegai ei ddatblygu.

2.1.5 Datblygu capasiti

Rydym eisiau cefnogi lleoedd i ddatblygu eu galluoedd i uchafu buddion buddsoddiad lleol. Dyma pam ein bod yn cadw rhan o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU ar gyfer cyllid capasiti:

- Darparu hyd at gyfanswm o £2 filiwn ar gyfer cydlynu a gwerthuso cynigion fel rhan o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU, sydd ar gael i awdurdodau arweiniol bob un o'r 100 lle â blaenoriaeth, i'w helpu nhw i gydlynu a gwerthuso cynigion.
- Darparu cyllid capasiti o hyd at £14 miliwn i gefnogi gyda pharatoi at Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a fydd ar gael i bartneriaid lleol ym Mhrydain Fawr yn hwyrach yn y flwyddyn. Yng Ngogledd Iwerddon, byddwn hefyd yn darparu cyllid capasiti i bartneriaid megis grwpiau sector a rhanddeiliaid allweddol. Bydd manylion ynghylch cymhwysedd ar gyfer y cyllid capasiti hwn, a'r cyllid ei hun, yn cael eu cyhoeddi yn hwyrach eleni.

Mae rhagor o fanylion ynghylch cyllid capasiti i'w cael yn adran 4.4 y prospectws hwn.

2.2 Sut fydd y Gronfa yn gweithio – crynodeb

Yn y prospectws hwn nodir sut fydd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn gweithio ar draws y DU a cheir canllaw i ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'r broses. Rhoddir crynodeb isod ac mae rhestr dermau i'w cael yn [Atodiad A](#).

Mae'r manylion canlynol yn berthnasol i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU yn unig ac nid ydynt yn rhagosod dull gweithredu Cronfa Adfywio Cymunedol y DU. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU mewn Fframwaith Buddsoddi i'r DU gyfan yn hwyrach eleni a bydd y proffil yn cael ei gadarnhau yn yr Adolygiad Gwariant nesaf.

2.2.1 Blaenoriaethau buddsoddi

I feithrin ein meddyliau arloesol ac i gynnig hyblygrwydd, gall prosiectau lynu wrth naill ai un, neu sawl un, o'r blaenoriaethau buddsoddi canlynol:

- Buddsoddiad mewn sgiliau
- Buddsoddiad i fusnesau lleol

- Buddsoddiad mewn cymunedau a lleoedd
- Cefnogi pobl i gael cyflogaeth

Ni fydd unrhyw glustnodi ar draws y themâu hyn.

Mae 90% o'r cyllid sydd ar gael drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU yn gyllid refeniw.

Mae adran 3 yn nodi rhagor o fanylion ynghylch blaenoriaethau buddsoddi'r Gronfa.

2.2.2 Darpariaeth ym Mhrydain Fawr

Ym Mhrydain Fawr, bydd llywodraeth y DU yn cynnal proses gystadleuol heb unrhyw gymhwysedd wedi'i ragosod.

I sicrhau bod cyllid Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn cyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn angen, rydym wedi adnabod 100 lle â blaenoriaeth yn seiliedig ar fynegai o wytnwch economaidd ar draws Prydain Fawr sy'n mesur cynhyrchedd, incwm yr aelwyd, diweithdra, sgiliau a dwysedd poblogaeth. Datblygwyd hyn yn seiliedig ar ddull gweithredu cyson i adnabod angen ar draws y cenhedloedd hyn.

At ddibenion Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, caiff lle ei ddiffinio ar yr haen is, daearyddiaeth bwrdeistref ac unedol fel y nodir yn y [rhestr termau](#).

Mae awdurdod arweiniol wedi'i neilltuo ar gyfer pob lle. Dyma nhw:

- Awdurdodau Maerol Cyfunedig, lle bynnag maent yn bodoli yn Lloegr
- Yr Awdurdod Llundain Fwyaf
- Cynghorau Sir
- Awdurdodau unedol yn lleoedd eraill yng Nghymru, yr Alban a Lloegr

Dylai awdurdodau arweiniol wahodd cynigion am brosiectau gan ystod o ymgeiswyr lleol, gan gynnwys cynghorau dosbarth lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol a darparwyr addysg lleol, gan gynnwys prifysgolion. Yna dylai awdurdodau arweiniol werthuso'r prosiectau hyn a chreu rhestr fer o brosiectau hyd at uchafswm o £3 miliwn fesul lle i'w chyflwyno i lywodraeth y DU. Bydd llywodraeth y DU yn dewis prosiectau yn unol â'r meini prawf dethol

wedi'u nodi yn [adran 6](#). Ni fydd llywodraeth y DU yn derbyn unrhyw gynnig uniongyrchol o unrhyw gorff arall heblaw'r awdurdod arweiniol.

Bydd awdurdod arweiniol pob un o'r 100 lle â blaenoriaeth yn cael cyllid capasiti i'w gynorthwyo gyda chydlynu a gwerthuso cynigion.

Gellir gweld rhagor o fanylion ynghylch dosbarthiad cyllid ym Mhrydain Fawr yn adran 4.1 ac mae manylion y broses asesu ar gyfer yr holl leoedd wedi'u nodi yn [adran 6](#). Mae'r 100 lle â blaenoriaeth ac awdurdodau arweiniol ar gyfer pob lle ar ddiwedd y prospectws hwn.

Mae rhagor o fanylion ynghylch rôl awdurdodau lleol wedi'u nodi'n fwy manwl yn adran 5.3.

Bydd canllawiau ar wahân ar gael i'r awdurdodau arweiniol ym Mhrydain Fawr yn fuan.

Dylai'r awdurdod arweiniol gyflwyno ei restr fer o brosiectau i'r Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol erbyn hanner dydd, dydd Gwener 18 Mehefin 2021.

2.2.3 Darpariaeth yng Ngogledd Iwerddon

Rydym yn ymgymryd â dull gweithredu gwahanol i gyflwyno'r Gronfa Adfywio Cymunedol yng Ngogledd Iwerddon, sy'n cymryd i ystyriaeth y tirlun llywodraeth leol gwahanol yng Ngogledd Iwerddon mewn cymhariaeth â Phrydain Fawr. Bydd dyraniad cenedlaethol wedi'i bennu ymlaen llaw i Ogledd Iwerddon, wedi'i osod ar £11 miliwn. Drwy ymdrin â Gogledd Iwerddon fel un ardal ddaearyddol, byddwn yn sicrhau bod pob cymuned yn cael mynediad cyfartal i wneud cais am y Gronfa.

Bydd llywodraeth y DU yn derbyn cynigion gan ystod o ymgeiswyr lleol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i brifysgolion, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol, a grwpiau busnes ymbarél.

Dylid cyflwyno cynigion yn uniongyrchol i'r Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol erbyn hanner dydd, dydd Gwener 18 Mehefin 2021.

2.2.4 Darpariaeth yn Gibraltar

Fel derbynydd cronfeydd strwythurol yr UE, bydd tiriogaeth dramor Gibraltar hefyd yn gymwys am hyd at £500,000 o fuddsoddiad o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU. Bydd llywodraeth y DU yn trafod darpariaeth cyllid yn Gibraltar yn uniongyrchol gyda Llywodraeth Gibraltar. Bydd dogfen gyfarwyddyd ar wahân ar gyfer Gibraltar yn cael ei chyhoeddi'n fuan.

2.2.5 Paratoi at Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU, bydd llywodraeth y DU hefyd yn darparu hyd at £14 miliwn o gyllid capasiti i gefnogi gyda pharatoi at Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a fydd ar gael i bartneriaid lleol ym Mhrydain Fawr yn hwyrach yn y flwyddyn. Yng Ngogledd Iwerddon, byddwn hefyd yn darparu cyllid capasiti i bartneriaid megis grwpiau sector a rhanddeiliaid allweddol.

Mae rhagor o fanylion ynghylch cyllid capasiti i'w cael yn adran 4.4 y prospectws hwn.

2.2.6 Rhagor o fanylion

Gallwch gysylltu

â UKCommunityRenewalFund@communities.gov.uk i ofyn am eglurhad ar gynnwys y prospectws hwn hyd at 31 Mawrth 2021. Yna bydd crynodeb o gwestiynau cyffredin ac atebion yn cael eu cyhoeddi ar-lein.

3. Cronfa Adfywio Cymunedol y DU: Blaenoriaethau buddsoddi

Gwyddom fod cronfeydd strwythurol yr UE yn faich gweinyddol ac yn cyfarwyddo'n ormodol. Ar brydiau, nid oedd partneriaid lleol yn gallu buddsoddi arian yn unol ag anghenion eu hardal lle nad oedd galw lleol yn cyd-fynd â blaenoriaethau cyllid a oedd yn cyfarwyddo'n ormodol ac 'echelau blaenoriaeth'. Byddwn yn newid hyn, ac yn hytrach yn grymuso llefydd i ymgymryd â dull gweithredu mwy holistig.

3.1 Canllawiau buddsoddi

I feithrin ein meddyliau arloesol ac i gynnig hyblygrwydd, gall prosiectau lynu wrth naill ai un, neu sawl un, o'r blaenoriaethau buddsoddi canlynol:

- Buddsoddiad mewn sgiliau
- Buddsoddiad i fusnesau lleol
- Buddsoddiad mewn cymunedau a lleoedd
- Cefnogi pobl i gael cyflogaeth

Ni fydd unrhyw glustnodi ar draws y themâu hyn. Bydd hyn yn grymuso lleoedd i ymgymryd â dull gweithredu mwy holistig, gan newid blaenoriaethau cyllid sy'n cyfarwyddo'n ormodol ac 'echelau blaenoriaeth'.

Mae 90% o'r cyllid sydd ar gael drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU yn gyllid refeniw, gyda swm isel o gyllid cyfalaf. Dylai darpar ymgeiswyr raddnodi eu cynigion yn unol â hynny. Mae gennym ddiddordeb mewn cynigion sydd naill ai'n gwbl seiliedig ar refeniw neu'n bennaf yn seiliedig ar refeniw. Mae rhagor o fanylion ynghylch egwyddorion arwain ar gyfer darpar ymgeiswyr i'w cael yn adran 5.2 y prospectws hwn.

Mae gennym ddiddordeb mewn cynigion sy'n adeiladu ar ddealltwriaeth a gwybodaeth leol, a chynigion prosiectau sy'n cydfynd â chynlluniau strategol hirdymor ar gyfer twf lleol, gan dargedu'r bobl sydd fwyaf mewn angen a chefnogi adnewyddiad cymunedol. Yn ogystal, dylai prosiectau ddangos sut maent yn ategu at ddarpariaethau cenedlaethol a lleol eraill. Yn ffocws i'r Gronfa hon mae cefnogi arloesedd a syniadau newydd yn yr ardaloedd hyn, buddsoddi mewn peilotau sy'n tynnu ar ddealltwriaethau lleol ac sy'n cynorthwyo lleoedd i baratoi at gyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn 2022.

3.1.1 Cyfrannu at ein hamcanion Sero Net ac amcanion amgylcheddol

Mae Sero Net y Llywodraeth hon yn cynrychioli elfen allweddol yn ein hymrwymiad i ddod yn ôl ar ein traed yn well. Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni'r math o dwf sy'n codi'r safon, lleihau allyriadau, ac yn sefydlu ein statws fel Prydain Fyd-eang.

Dylai buddsoddiad a wneir dan y Gronfa hon allu dangos ehangder y cyfraniad at amcanion sero net neu ystyriaethau amgylcheddol ehangach. Dylai prosiectau seilio ar arfer orau carbon isel neu sero carbon, mabwysiadu a chefnogi technoleg lân, arloesol lle bynnag sy'n bosibl a chefnogi'r sgiliau a chadwyni cyflenwi cynyddol i gefnogi Sero Net lle bynnag sy'n bosibl. Dylai buddsoddiad dan y gronfa hon fodloni o leiaf yr egwyddor twf glân ac ni ddylai fynd yn groes i ymrwymiad cyfreithiol y DU i dorri allyriadau nwyon tŷ gwyrdd i sero net erbyn 2050.

I gefnogi twf gwyrdd, dylai cynigion hefyd ystyried sut all prosiectau weithio gyda'r amgylchedd naturiol i gyflawni amcanion prosiectau, ac - o leiaf - ystyried effaith y prosiect ar ein hasedau naturiol a natur. Am ragor o wybodaeth ynghylch sut i ystyried y rhain, gweler yr [adnoddau Galluogi Dull Gweithredu Cyfalaf Naturiol](#).

Nid yw hyn yn berthnasol i ymyriadau sy'n canolbwyntio ar gefnogi pobl i gael cyflogaeth. Mae rhagor o fanylion ynghylch meini prawf dethol y DU gyfan yn [adran 6](#) y prospectws hwn.

3.1.2 Defnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

Mae'r grym cymorth ariannol yn Neddf Marchnad Fewnol y DU 2020 yn caniatáu i lywodraeth y DU fuddsoddi ar draws y DU gyfan at ddiben datblygiad economaidd ac felly bydd yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r Gronfa Adfywio Cymunedau ar draws y DU.

Mae'r grym, yn ogystal â grymoedd cyfredol y Gweinyddiaethau Datganoledig, yn caniatáu llywodraeth y DU i ategu at y cymorth a roddir i ddinasyddion, busnesau a chymunedau yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban a'i gryfhau.

Felly, rhaid i gynigion a gyflwynir i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU fod yn berthnasol dan gwmpas y grym, hynny ydy, mae'n rhaid iddynt gefnogi datblygiad economaidd. Mae meysydd eraill yr ymdrinnir â nhw fel rhan o'r grym yn cynnwys diwylliant, chwaraeon, a gweithgareddau addysgol a hyfforddiant.

Gallwch gael manylion y Ddeddf yn legislation.gov.uk.

Gellir defnyddio trosglwyddiadau eraill megis Deddf Datblygu Diwydiannol (1982) lle bynnag sy'n berthnasol.

3.1.3 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Fel corff y sector cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. I sicrhau ein bod yn ystyried effaith bosibl y cyllid ar unigolion gyda nodweddion gwarchoddedig, byddwn yn rhoi ystyriaeth ddyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar adegau penderfynu allweddol, ac yn ceisio gwybodaeth gan ymgeiswyr ac awdurdodau arweiniol i gefnogi'r broses hon.

Er nad yw hyn yn rhan o asesiad y prosiect, wrth wneud penderfyniadau terfynol ynghylch portffolio y prosiectau cymeradwy, bydd yr adran yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'w Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Dylai pob ymgeisydd ystyried effeithiau ar gydraddoldeb wrth ffurfio ei gynigion ac mae'n ofynnol i awdurdodau arweiniol ystyried effeithiau ar gydraddoldeb eu penderfyniadau ar y cynigion dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Cydnabyddwn bwysigrwydd nid yn unig bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ond hefyd rhoi ystyriaeth ddyledus i'r ystyriaethau cydraddoldeb ychwanegol sy'n berthnasol yng ngogledd Iwerddon.

3.2 Buddsoddiad mewn sgiliau

Bydd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn cynorthwyo pobl gyda'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar gyfleoedd newydd a sicrhau bod eu cymunedau lleol yn ffynnu a chynhyrchiol. Mae hyn yn cynnwys cyfarparu pobl â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i uchafu ar gyfleoedd ac anghenion eu hardal leol a bodloni anghenion economi sy'n fwyfwy gwyrdd a digidol.

Dylai cynigion ffurfio rhan o'r cynnig twf lleol ehangach ac yn gwahaniaethu'n amlwg i gyllid a ddarperir drwy ffrydiau cyllid eraill, megis Cyllideb Addysg Oedolion, Prentisiaethau, Cronfa Datblygu Strategol a Bwtcamp Sgiliau.

Mae gennym ddiddordeb mewn cynigion ar gyfer prosiectau arloesol sy'n mynd i'r afael ag anghenion sgiliau lleol cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg ac yn cyd-fynd â buddsoddiad ehangach yn seiliedig ar le.

Gall cynigion gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'r canlynol:

- **Hyfforddiant ar sail gwaith** – er enghraifft, mynd i'r afael ag angen lleol penodol gan gyflogwyr lleol ar gyfer hyfforddiant yn y swydd i gefnogi twf lleol, megis cyflogi adeiladwyr dan hyfforddiant ar gyfer prosiect isadeiledd newydd.
- **Ailhyfforddi, uwchsgilio, neu ailsgilio aelodau o'r gweithlu** – er enghraifft, cynorthwyo sefydliadau i adnabod a deall y bwlch sgiliau neu roi mynediad at gymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant perthnasol lle mae'r gweithle lleol o bosibl angen sgiliau newydd i fodloni anghenion cyflogwr neu sector a chefnogi trawsnewidiadau economaidd lleol.
- **Hyrwyddo datblygiad sgiliau a chynhwysiad digidol** – er enghraifft cefnogi datblygiad sgiliau digidol ar gyfer unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, yn enwedig lle mae allgáu digidol yn cyflwyno rhwystr i gyflogaeth, magu hyder i ddefnyddio sgiliau digidol sylfaenol ac uwch a hyrwyddo diogelwch ac ymwybyddiaeth ar-lein.

Dylai cynigion arddangos eu haddasrwydd strategol a chysylltu ag angen sgiliau lleol a'r farchnad lafur. Mae angen i gynigion dystio nad yw'r prosiect yn gwrthdaro â pholisi llywodraeth y DU ehangach. Mae rhagor o fanylion ynghylch meini prawf asesu yn [adran 6](#) y prospectws hwn.

3.3 Buddsoddiad i fusnesau lleol

Gall cymorth targedig i fusnesau lleol gynorthwyo preswylwyr lleol drwy gyflogaeth gynyddol, hyfforddiant a chyfleoedd gwell yn y gwaith a chreu mentrau entrepreneuriaidd newydd.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn prosiectau sy'n targedu cymorth at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac ymyriadau ar lefel gymunedol a all gynyddu cyfle i bawb, gan gynnwys mentrau arfordirol a gwledig.

Yn ogystal, gall buddsoddiad mewn peilotau gynorthwyo i greu diwylliant o arloesedd ledled y DU. Gallai hyn fod drwy ddod o hyd i ffyrdd newydd i hyrwyddo mabwysiadu technoleg werdd, masnacheiddio neu gynorthwyo i greu llwybr ar gyfer uwchsgilio

busnesau lleol drwy waith ar y cyd rhwng addysg uwch a busnesau bach.

Mae gennym ddi-ddordeb mewn cynigion ar gyfer peilotau a phrosiectau arloesol sy'n mynd i'r afael ag anghenion busnesau lleol ac arloesedd. Gall cynigion gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'r canlynol:

- **Cefnogi entrepreneuriaid a chynorthwyo busnesau sydd â photensial i greu mwy o gyfleoedd gwaith i gyflogeion cyfredol neu gyflogi cyflogeion newydd** – er enghraifft cynorthwyo busnesau i geisio'r cymorth arbenigol sydd eu hangen arnynt, megis cynlluniau parod am fuddsoddiad ac arbenigwyr y sector preifat fel swyddogion anweithredol profiadol.
- **Annog busnesau i ddatblygu eu potensial arloesedd** – er enghraifft hwyluso twf busnesau bach a datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd a gwell drwy hyrwyddo gwaith ar y cyd a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth ar raddfa fach. Gall hyn gynnwys meithrin rhagor o waith ar y cyd rhwng sefydliadau addysg uwch a busnesau bach, uchafu canlyniadau ymchwil ac adeiladu gallu arloesedd drwy ddatblygu cynlluniau ar gyfer cyfleusterau a chyfleoedd arloesedd lleol megis canolfannau arloesi a gwasanaethau deori.
- **Cefnogi mesurau datgarboneiddio** – er enghraifft annog busnesau a sefydliadau lleol i leihau nwyon tŷ gwydr drwy fuddsoddi mewn technoleg neu fesurau effeithiolrwydd ynni newydd sy'n gallu cyflwyno buddion i'r waelodlin a gwella cynhyrchedd busnes.

Dylai cynigion arddangos eu haddasrwydd strategol a chysylltu ag anghenion economaidd a busnesau lleol. Nid yw buddsoddiadau o fenthyciadau neu ecwiti yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y cyllid hwn. Mae angen i gynigion dystio nad yw'r prosiect yn gwrthdaro â pholisi llywodraeth y DU. Mae rhagor o fanylion ynghylch meini prawf asesu yn [adran 6](#) y prosiectws hwn.

3.4 Buddsoddiad mewn cymunedau a lleoedd

Mae ein cymunedau wrth wraidd ein treftadaeth a'n hunaniaeth ddiwylliannol ac economaidd. Mae angen i ni fuddsoddi ymhellach i uchafu cyfleoedd i ddwyn pobl ynghyd, adeiladu ein strwythur cymdeithasol a hybu adferiad a gwytnwch. Yn ei dro, bydd hyn yn

creu lleoedd lle mae pobl eisiau gweithio, byw ac ymweld â nhw. Gall buddsoddi i wella, diogelu a chreu asedau cymunedol a naturiol hyrwyddo balchder a llesiant, hybu cynhyrchedd, denu a chadw doniau, a meithrin ymdeimlad unigryw o le.

Mae 90% o'r cyllid sydd ar gael drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU yn gyllid refeniw. Dylai ymgeiswyr raddnodi eu cynigion yn unol â hynny. Mae rhagor o fanylion ynghylch egwyddorion arwain ar gyfer darpar ymgeiswyr i'w cael yn adran 5.2.1 y prospectws hwn.

Mae gennym ddiddordeb mewn cynigion ar gyfer peilotau a phrosiectau arloesol sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymunedol ac yn cefnogi lleoedd lleol. Gall cynigion gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'r canlynol:

- **Astudiaethau dichonolrwydd ar gyfer cyflawni prosiectau sero net ac ynni lleol** – er enghraifft asesu cyfle a hyfywedd prosiectau gwyrdd sy'n cyfrannu at ein hagenda werdd neu ein hamcanion sero net, megis gosod mannau gwefru cerbydau trydan a phrosiectau buddsoddiad arfordirol. Gall hyn gynnwys buddsoddi mewn astudiaethau dichonolrwydd i asesu, er enghraifft, ystyriaethau amserlennu, ffactorau cyfreithiol, economaidd a thechnegol ar gyfer prosiectau a allai gefnogi datgarboneiddio lleol lle daw hyn â buddion cymdeithasol neu economaidd i bobl lleol a hyrwyddo datrysiadau sy'n ystyriol o'r amgylchedd neu ddatrysiadau ar y cyd lleol, megis prosiectau ynni glân.
- **Archwilio cyfleoedd i hyrwyddo adfywiad a datblygiad cymunedol yn seiliedig ar ddiwylliant** – er enghraifft buddsoddi mewn astudiaethau dichonolrwydd sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant a chyfleusterau cymunedol i ddenu pobl i leoedd, gan gynnwys canol dinasoedd a threfi gwledig ac arfordirol. Gall hyn gynnwys ymchwil i brosiectau a allai gynhyrchu ymwelwyr i gefnogi busnesau eraill y sector preifat, cyfleoedd i wella effeithiolrwydd a gwaith ar y cyd drwy gyfuno gwasanaethau cyhoeddus lleol i greu canlyniadau lleol gwell neu fuddsoddi i gadw neu atgyfnerthu cyfleusterau diwylliannol a chwaraeon, megis amgueddfeydd, orielau, atyniadau ymwelwyr, adfer pierau ac asedau treftadaeth.
- **Gwella mannau gwyrdd a chadw asedau lleol pwysig** – er enghraifft atgyfnerthu asedau naturiol, gan gynnwys mannau gwyrdd mewn cymdogaethau ac ystadau tai, i atgyfnerthu ansawdd bywyd i ddenu a chadw doniau, a denu twristiaeth.

- **Hyrwyddo cysylltedd gwledig** – er enghraifft datblygu cyfleoedd ar gyfer swyddogaethau digidol a chysylltedd ffisegol i gynorthwyo i wireddu llawn botensial busnesau gwledig. Gall hyn gynnwys archwilio syniadau arloesedd a gynigiwyd ar gyfer gwella hygyrchedd a chyfleoedd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i gymunedau gwledig, gan gynnwys isadeiledd gwledig a gwyrdd.

Dylai cynigion arddangos tystiolaeth o’u haddasrwydd strategol a chysylltu ag anghenion cymunedol, cymdeithasol neu economaidd lleol. Mae angen i gynigion dystio nad yw’r prosiect yn gwrthdaro â pholisi llywodraeth y DU. Mae rhagor o fanylion ynghylch meini prawf asesu yn [adran 6](#) y prospectws hwn.

3.5 Cefnogi pobl i gael cyflogaeth

Mae angen i ni weithredu i leihau’r rhwystrau ychwanegol y mae rhai pobl yn eu hwynebu er mwyn eu galluogi i gymryd mantais o’r cyfleoedd economaidd wrth i’r DU symud ymlaen.

Bydd buddsoddi yma yn cynorthwyo lleoedd i ddarparu cymorth lleol, teilwredig, cyflawn i gefnogi’r rheiny sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur - gan ganolbwyntio ar unigolion sy’n ei chael hi’n anodd ymgysylltu â darpariaeth y brif ffrwd neu nad yw darpariaeth y brif ffrwd yn opsiwn iddynt. Bydd hyn yn cefnogi pobl i oresgyn amrywiaeth o rwystrau ychwanegol i gyflogaeth neu raglenni’r brif ffrwd nad ydynt yn gallu eu defnyddio’n llawn heb gymorth ychwanegol.

Dylai hyn fod yn ychwanegol at gymorth cyhoeddus arall a gall gefnogi, ond heb ddyblygu, mentrau eraill y llywodraeth a darpariaeth adrannol graidd (megis y Gyllideb Addysg i Oedolion neu’r Gronfa Cymorth Hyblyg).

Yn ogystal, dylai cynigion arddangos sut fydd eu cynnig yn cyd-fynd â gweithgareddau’r brif ffrwd, megis y Cynllun Kickstart, y Rhaglen Restart a mentrau eraill y Cynllun Swyddi, gan bwysleisio pa gymorth cyflawn sy’n cael ei gynnig, a sut fydd y gynulleidfa darged yn cael ei hadnabod a’i hymgysylltu.

Dylai peilotau dynnu ar dimau cyflawni amlasiantaethol a’u hatgyfnerthu, gan gynnwys y sector cymunedol a gwirfoddol ynghyd â

darpariaeth gyhoeddus. Dylent ddwyn ynghyd ystod o ddarparwyr gwasanaeth i fewnosod a darparu gwasanaeth cydlynol i gefnogi unigolion ar hyd y daith i gyflogaeth.

Mae gennym ddiddordeb mewn cynigion ar gyfer peilotau a phrosiectau arloesol sy'n canolbwyntio ar gyflawni rhaglenni unigryw, defnyddio dull gweithredu yn seiliedig ar anghenion i gefnogi unigolion i oresgyn eu rhwystrau niferus neu gymhleth sy'n atal eu gallu i geisio cyflogaeth. Dylai'r peilotau hyn gefnogi'r rheiny sydd wedi'u datgysylltu fwyaf o'r farchnad lafur. Gall cynigion gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'r canlynol:

- **Cefnogi pobl i ymgysylltu â gwasanaethau lleol sy'n eu cefnogi ar eu taith tuag at gyflogaeth** – megis dwyn ynghyd timau amlasiantaethol i gyfuno amrywiaeth o wasanaethau o gwmpas unigolyn i fynd i'r afael â'r rhwystrau amrywiol i gyflogaeth a all fod yn eu hwynebu; neu gymorth gweithiwr allweddol i gysylltu unigolion â darpariaeth gyhoeddus neu wirfoddol sydd eisoes yn bodoli.
- **Adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau posibl all yr unigolion hyn fod yn eu hwynebu wrth geisio cyflogaeth neu symud yn agosach at y farchnad lafur** – megis defnyddio cymorth gan weithiwr allweddol i weithio gyda buddiolwyr i adnabod rhwystrau at gyflogaeth; gweithio gydag unigolion a'u cysylltu â'r gwasanaethau mwyaf priodol drwy gydol y daith gyflogaeth.
- **Codi dyheadau, cefnogi unigolion i wneud cais am gymorth cyflogaeth gan y Cynllun Swyddi, gwneud cais am swyddi a dod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy** – megis darparu cymorth holistig i fynd i'r afael â rhwystrau hirdymor i gyflogaeth gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: cymorth gydag ymyriadau alcohol a chyffuriau, sgiliau ar gyfer bywyd megis prydlondeb, magu hyder a, chymorth cyflogaeth, gan gynnwys profiad gwaith, ysgrifennu CV neu baratoi at gyfweiliad.
- **Cefnogi pobl i ennill y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen arnynt i ddatblygu eu potensial ar gyfer gwaith cynaliadwy** – megis Saesneg, Mathemateg, sgiliau Digidol a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill a chyrsgiau hyfforddiant. Gallai darpariaeth addas arall gynnwys cymorth i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, rhyngpersonol a chyflwyno.
- **Profi beth sy'n gweithio wrth gynorthwyo pobl i symud tuag at waith** – megis profi mentrau newydd sy'n cefnogi pobl ar hyd y daith gyflogaeth i ddeall sut all gwahanol ymyriadau, neu ddulliau targedu,

uchafu effeithiolrwydd rhaglenni cyflogaeth sydd wedi'u hanelu at y rheiny sydd ymhellach oddi wrth y farchnad lafur.

Dylai'r prosiectau peilot hyn ein galluogi i brofi ymyriadau amrywiol gyda golwg ar ddarparu sylfaen dystiolaeth i ddeall beth sy'n gweithio go iawn o ran cefnogi pobl i gael cyflogaeth. Dylent brofi ffyrdd newydd o weithio ar y cyd ar lefel leol, gan gymryd dull amlasiantaethol, gweithio gyda Canolfan Byd Gwaith ac yn cynnwys y sector cymunedol a gwirfoddol i ddarparu cyfres gyflawn o gymorth all y rheiny sydd â rhwystrau ychwanegol neu gymhleth eu hwynebu.

Dylai cynigion dystio eu haddasrwydd strategol a chysylltu ag angen y farchnad lafur leol ac anghenion cyflogadwyedd. Mae angen i gynigion dystio nad yw'r prosiect yn gwrthdaro â pholisi llywodraeth y DU. Mae rhagor o fanylion ynghylch meini prawf asesu yn [adran 6](#) y prosbectws hwn.

4. Dosbarthu Cronfa Adfywio Cymunedol y DU

4.1 Dosbarthu cyllid ym Mhrydain Fawr

Bydd llywodraeth y DU yn cynnal proses gystadleuol y mae lleoedd ym Mhrydain Fawr yn gymwys i wneud cais amdani. Bydd cynigion ar gyfer Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn cael eu rheoli gan y canlynol, y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel yr 'awdurdod arweiniol':

- Awdurdodau Maerol Cyfunedig, lle bynnag maent yn bodoli yn Lloegr
- Yr Awdurdod Llundain Fwyaf
- Cynghorau Sir
- Awdurdodau unedol yn lleoedd eraill yng Nghymru, yr Alban a Lloegr

Rhaid i'r awdurdodau arweiniol hyn wahodd cynigion gan ymgeiswyr prosiectau cyn cyflwyno rhestr fer o gynigion prosiectau i lywodraeth y DU. Mae rhagor o fanylion ynghylch hyn yn adran 5.3. Mae'r dull gweithredu hwn ar gyfer Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn 2021-22 yn unig.

I sicrhau bod cyllid Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn cyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn angen, rydym wedi adnabod 100 lle â blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad yn seiliedig ar fynegai o wytnwch economaidd ar draws Prydain Fawr sy'n mesur cynhyrchedd, incwm yr aelwyd, diweithdra, sgiliau a dwysedd poblogaeth. Datblygwyd hyn yn seiliedig ar ddull gweithredu cyson i adnabod angen ar draws Prydain Fawr.

Bydd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn blaenoriaethu cynigion sy'n targedu'r 100 lle â blaenoriaeth uchaf ("100 lle â blaenoriaeth"), ochr yn ochr â chyfraniad da at addasrwydd strategol a darpariaeth/effeithiolrwydd. Mae'r broses asesu ar gyfer yr holl leoedd wedi'u nodi yn [adran 6](#).

Ni ddyfarnir cyllid i brosiectau nad ydynt yn arddangos cyfraniad da at y meini prawf dethol. Nid yw lle yn cael ei restru fel lle â blaenoriaeth yn gwarantu cyllid.

Bydd awdurdod arweiniol pob un o'r 100 lle â blaenoriaeth hefyd yn cael cyllid capasiti i'w gynorthwyo i wahodd cynigion yn lleol a gwerthuso'r cynigion hyn. Bydd pob awdurdod arweiniol yn cael £20,000 fesul lle â blaenoriaeth. Gellir ysgwyddo'r cyllid hwn o Ebrill 2021 ar gyfer staff neu adnoddau eraill sydd eu hangen i gydlynu a gwerthuso cynigion. Bydd yn cael ei dalu i awdurdodau arweiniol yn yr haf ac yn cael ei dalu pa un ai a yw cynigion yn llwyddiannus ai peidio.

Rydym yn ymroddedig i dryloywder a bydd nodyn methodolegol yn cael ei gyhoeddi, yn egluro sut y datblygwyd y mynegai gwytnwch economaidd ac yr adnabuwyd y 100 lle â blaenoriaeth.

4.2 Dosbarthu cyllid yng Ngogledd Iwerddon

Cymerir dull gweithredu gwahanol yng Ngogledd Iwerddon, lle fydd llywodraeth y DU yn cynnal cystadleuaeth genedlaethol yn erbyn dyraniad cenedlaethol gosodedig. Mae pob ardal yng Ngogledd Iwerddon yn gymwys am gyllid a gall ymgeiswyr wneud cais yn uniongyrchol i lywodraeth y DU. Bydd hyn yn cyfartalu i £11 miliwn o gyllid.

Mae dosbarthu cyllid drwy gystadleuaeth genedlaethol yn hytrach na thrwy gynghorau lleol yn cymryd i ystyriaeth y tirlun llywodraeth leol

gwahanol yng Ngogledd Iwerddon mewn cymhariaeth â Phrydain Fawr. Nid ydym wedi cymhwyso unrhyw dargedu is-genedlaethol yng Ngogledd Iwerddon er mwyn sicrhau bod pob cymuned ledled Gogledd Iwerddon yn gallu gwneud cais am yr arian hwn.

4.3 Dosbarthu cyllid yn Gibraltar

Fel derbynydd cronfeydd strwythurol yr UE, bydd Gibraltar hefyd yn gymwys am hyd at £500,000 o fuddsoddiad o'r gronfa hon. Byddwn yn trafod hyn yn uniongyrchol â Llywodraeth Gibraltar ac nid yw'r adrannau canlynol yn berthnasol.

4.4 Cyllid capasiti i gefnogi i baratoi at Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Bydd cyfran o'r Gronfa Adfywio Cymunedol yn cael ei chadw ar gyfer cyllid capasiti, i'w dyrannu i bartneriaid lleol i baratoi at Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Bydd cyllid capasiti i gefnogi gyda pharatoi at Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar gael i bartneriaid lleol ym Mhrydain Fawr yn hwyrach yn y flwyddyn. Bydd y cyllid hwn yn cynorthwyo i adeiladu capasiti mewnol a datblygu llif prosiectau cyn Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Yng Ngogledd Iwerddon, byddwn hefyd yn darparu cyllid capasiti i bartneriaid megis grwpiau sector a rhanddeiliaid allweddol i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, cynorthwyo darpar ymgeiswyr i wneud cais i'r llywodraeth a'n cefnogi ni i ddatblygu cynllun buddsoddi lleol i Ogledd Iwerddon.

Bydd hyd at £14 miliwn ar gael i gefnogi gyda'r gwaith paratoi cyn cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Bydd hyn ar gael pan fydd proffil dyrannu hirdymor Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach eleni. Byddwn hefyd yn nodi manylion ynghylch sut fydd y cyllid capasiti hwn yn cael ei ddosbarthu ar yr adeg honno. Nid yw dyrannu cyllid capasiti dan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU yn pennu ymlaen llaw y dull dyrannu ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredinol y DU.

5. Gweinyddu'r Gronfa: Proses a dethol

5.1 Trosolwg o'r dull gweithredu darparu

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod partneriaid lleol ledled y DU yn gallu siapio buddsoddiad o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

Mae'r dull gweithredu a amlinellir isod yn berthnasol i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU yn unig. Bydd rhagor o fanylion ynghylch dull cyflawni Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael eu cyhoeddi mewn Fframwaith Buddsoddi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn hwyrach eleni.

5.1.1 Darpariaeth ym Mhrydain Fawr

Ym Mhrydain Fawr, rydym yn gwahodd awdurdodau arweiniol i: wahodd cynigion gan ystod o ymgeiswyr prosiectau; gwerthuso a blaenoriaethu rhestr fer o brosiectau hyd at uchafswm o £3 miliwn fesul lle (fel y diffinir yn y [rhestr termau](#) ac fel yr amlinellir yn y [rhestr o 100 lle â blaenoriaeth](#)); a chyflwyno rhestr fer o'r prosiectau i lywodraeth y DU.

I sicrhau bod y 100 lle â blaenoriaeth yn gallu ymgymryd â'r swyddogaethau a nodwyd uchod, bydd yr awdurdodau arwain yn y 100 lle â blaenoriaeth yn cael capasiti cynllun fel y nodwyd yn Adran 4.1. Nid yw capasiti cyllid ar gael ar gyfer awdurdodau arweiniol yn llefydd eraill.

Dylai awdurdodau arweiniol gyflwyno rhestr fer o brosiectau i'r Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol erbyn **hanner dydd, dydd Gwener 18 Mehefin 2021** drwy anfon e-bost at UKCommunityRenewalFund@communities.gov.uk.

Ni fydd cynigion sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau neu nad ydynt yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod arweiniol yn cael eu hystyried. Yna, byddwn yn cadarnhau pa brosiectau a fydd yn cael cyllid o ddiwedd Gorffennaf 2021 ymlaen.

Mae rhagor o fanylion i awdurdodau arweiniol ym Mhrydain Fawr yn adran 5.3 y prosiectws hwn.

5.1.2 Darpariaeth yng Ngogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, bydd Llywodraeth y DU yn goruchwyllo cystadleuaeth prosiectau yn uniongyrchol.

Rydym yn disgwyl i ystod o ymgeiswyr baratoi cynigion, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i brifysgolion, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol, a grwpiau busnes ymbarél. Dylai unrhyw sefydliad a gyfansoddwyd gan y gyfraith sy'n darparu gwasanaeth priodol deimlo ei fod yn gallu cyflwyno cynnig.

Bydd gwiriadau diwydrwydd dyladwy ariannol yn cael eu cynnal ar ymgeiswyr y sector nad ydynt yn perthyn i'r sector cyhoeddus. Bydd y gwiriadau hyn yn cynnwys asesiad o sefyllfa ariannol yr ymgeisydd, gan gynnwys y gallu i ymdrin â chostau sy'n gor-redeg, y gallu i ariannu'r prosiect ac ad-dalu'r arian pe byddai angen. Gall canlyniad y gwiriadau hyn eithrio ymgeiswyr rhag ystyriaeth bellach.

Dylid cyflwyno cynigion yn uniongyrchol i'r Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol erbyn **hanner dydd, dydd Gwener 18 Mehefin 2021** drwy anfon e-bost at UKCommunityRenewalFund@communities.gov.uk.

Ni fydd cynigion ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried. Yna, byddwn yn cadarnhau pa brosiectau a fydd yn cael cyllid o ddiwedd Gorffennaf ymlaen.

5.1.3 Darpariaeth yn Gibraltar

Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Gibraltar i gytuno ar y trefniadau darparu ar gyfer Gibraltar.

5.1.4 Amserlen

Mae amserlen lawn Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn adran 10; gweler isod crynodeb o'r broses gwneud cais am gyllid.

3 Mawrth 2021

- Llywodraeth y DU yn cyhoeddi prospectws Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.
- Cyhoeddir rhestr o leoedd â blaenoriaeth ac awdurdodau arweiniol ym Mhrydain Fawr yn y prospectws.

- Llywodraeth y DU yn lansio cystadleuaeth prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

18 Mehefin 2021

- Awdurdodau Arweiniol ym Mhrydain Fawr yn cyflwyno rhestri byrion o'r prosiectau i lywodraeth y DU i'w hasesu.
- Ymgeiswyr yng Ngogledd Iwerddon yn cyflwyno eu cynigion i lywodraeth y DU i'w gwerthuso a'u hasesu.
- O 18 Mehefin a thrwy gydol y Gorffennaf, bydd llywodraeth y DU yn asesu'r cynigion.

Diwedd Gorffennaf 2021 ac ymlaen

- Llywodraeth y DU yn cyhoeddi prosiectau llwyddiannus ar gyfer Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.

5.2 Gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr ledled y DU

5.2.1 Paratoi cynigion

Dylai darpar ymgeiswyr, er enghraifft grwpiau busnes, elusennau, a phrifysgolion ledled y DU, sicrhau bod eu cynigion yn dangos eu bod yn cyd-fynd ag amcanion a nodir yn y prospectws a Rheolau a Chanllawiau Cymhwysedd y Gronfa. Bydd Rheolau a Chanllawiau Cymhwysedd y Gronfa yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Yn ogystal, dylai darpar ymgeiswyr ledled y DU gymryd i ystyriaeth yr egwyddorion arwain canlynol:

- Anogir cynigion sy'n ymateb yn holistig i broblemau neu heriau.
- Mae angen i gynigion dystio bod y prosiect yn cyd-fynd â pholisi llywodraeth y DU, ac nad yw'n gwrthdaro ag ef.
- Ni ellir cyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau sydd ag endid unigol (er enghraifft busnes unigol) - rhaid cael tystiolaeth o effaith ehangach ar gyfer sawl unigolyn, busnes neu sefydliad arall.
- Rydym yn rhagweld y byddwn yn cefnogi ystod o brosiectau yn ôl thema a maint, ond rydym yn annog ymgeiswyr i uchafu effaith ac ymarferoldeb drwy brosiectau mwy (£500,000+) lle bynnag mae hyn yn bosibl.
- Mae'r cyllid sydd ar gael yn cynnwys 90% o gyllid refeniw a 10% o gyllid cyfalaf yn gyffredinol - dylai ymgeiswyr raddnodi eu cynigion yn unol â hynny.

- Dylai cynigion prosiectau arddangos eu bod yn glynu wrth y cynlluniau strategol sy'n berthnasol i bob lle, yn ogystal ag angen lleol.
- Dylai prosiectau gyfrannu at amcanion allweddol a chanlyniadau'r Gronfa, gan gynnwys y dangosyddion canlyniad/ allbwn a nodwyd yn Rheolau a Chanllawiau Cymhwysedd y Gronfa, a fydd yn cael eu cyhoeddi'n fuan.
- Dylai ymgeiswyr prosiectau ystyried effeithiau ar gydraddoldeb.
- Rhaid cyflwyno prosiectau yn unol â'r gofynion brandio a nodwyd yn Rheolau a Chanllawiau Cymhwysedd y Gronfa, a fydd yn cael eu cyhoeddi'n fuan.
- Yn ogystal, dylai prosiectau fodloni'r disgwyliadau monitro a gwerthuso, fel yr amlinellwyd yn adran 5.2.3 isod. Dylai prosiectau gynnwys costau priodol i sicrhau y gellir bodloni unrhyw rwymedigaeth darparu, monitro neu werthuso prosiectau o swm cymeradwy'r prosiect.
- Yn ogystal, rhaid i bob cynnig ystyried sut fydd yn cyflawni yn unol â rheolaeth arian cymorth (neu Gymorth Gwladwriaethol yng nghwmpas Protocol Gogledd Iwerddon) yn unol â [canllawiau llywodraeth y DU](#) – yn ogystal â phob rhwymedigaeth gyfreithiol berthnasol arall, megis caffael. Bydd hyn yn cael ei brofi fel rhan o'r broses werthuso, a'i fonitro wedi hynny.
- Rhaid i ymyriadau fod wedi'u cwblhau'n ariannol (h.y. pob gweithgaredd darparu wedi dod i ben) erbyn 31 Mawrth 2022 a bydd hyn ar gyfer y flwyddyn hon yn unig.

Os oes mwy nag un sefydliad yn gwneud cais i gyflawni prosiect, rhaid dewis prif sefydliad i ddod yn brif ymgeisydd (a derbynnydd y grant) gyda'r sefydliad(au) yn weddill yn gweithredu fel partner(iaid) darparu. Yn y sefyllfa hon, yr ymgeisydd fyddai'n gyfrifol ac yn atebol am y partner(iaid) darparu ac am sicrhau bod y prosiect yn gweithredu fel y cynlluniwyd.

5.2.2 Cyflwyno'ch cynnig

Ym Mhrydain Fawr, dylai darpar ymgeiswyr gysylltu â'u [hawdurdod arweiniol](#) i gyflwyno cynnig. Ni fydd llywodraeth y DU yn derbyn cynnig yn uniongyrchol - rhaid iddynt gael eu cyflwyno gan awdurdodau arweiniol yn dilyn proses werthuso leol.

Bydd pob awdurdod arweiniol yn gosod ei ofynion ei hun, ond yn defnyddio ffurflen gais a phroses werthuso gyffredin ledled y DU. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Yng Ngogledd Iwerddon, dylid cyflwyno cynigion gan ymgeiswyr prosiectau yn uniongyrchol i'r Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol drwy anfon e-bost at UKCommunityRenewalFund@communities.gov.uk.

5.2.3 Monitro a Gwerthuso

Rydym yn disgwyl i gynigion llwyddiannus fodloni'r gofynion canlynol o ran monitro a gwerthuso:

- Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion nodi effaith fwriadedig y prosiect.
- Bydd perfformiad y prosiect yn cael ei fonitro yn ôl cynnydd yn erbyn y targedau a'r cerrig milltir cytunedig.
- Os ydynt yn llwyddiannus, bydd angen i ymgeiswyr ddatblygu cynllun gwerthuso gyda rhwng 1-2% o'u dyfarniad yn cael ei neilltuo i'r gwerthusiad hwnnw gydag isafswm trothwy o £10,000.

Bydd pob prosiect yn cael ei fonitro naill ai gan yr awdurdod arweiniol (yn achos Prydain Fawr) neu gan lywodraeth y DU (i Ogledd Iwerddon). Bydd yn ofynnol i bob prosiect gyflwyno tystiolaeth i'r awdurdod arweiniol neu lywodraeth y DU yn arddangos cynnydd tuag at gyflawni targedau a phroffiliau buddsoddi'r prosiect yn rheolaidd. Bydd angen i hyn gynnwys data meintiol ac ansoddol.

Yn ogystal, bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd llwyddiannus yng Ngogledd Iwerddon gyflwyno adroddiad annibynnol (nei i gyrff cyhoeddus, adroddiad annibynnol neu fewnol o'r un safon) yn cadarnhau cysondeb ac ymlyniad at y cytundeb.

5.3 Gwybodaeth i awdurdodau arweiniol ym Mhrydain Fawr

Bydd gofynion manwl yn cael eu cyhoeddi'n fuan ar gyfer awdurdodau arweiniol, yn gosod nifer o ofynion sylfaenol ynghlwm â'u rôl ar gyfer gwariant Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.

Ym Mhrydain Fawr, rydym yn gwahodd awdurdodau arweiniol i ymgymryd â'r rôl ganlynol:

- Gwahodd cynigion gan ystod o ymgeiswyr prosiectau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i brifysgolion, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol, a grwpiau busnes ymbarél. Dylai unrhyw sefydliad a gyfansoddwyd gan y gyfraith sy'n darparu gwasanaeth priodol deimlo ei fod yn gallu paratoi cynnig.
- Ymgymryd ag ymgysylltiad adeiladol â phartneriaid lleol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i awdurdodau lleol haen is a chynrychiolwyr etholedig, a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, preifat a thrydydd.
- Gweithio ar y cyd ag awdurdodau arweiniol neu bartneriaid eraill ledled y DU lle bynnag mae hynny'n berthnasol - er enghraifft i hyrwyddo cyfleoedd y prosiect ar draws y ffin sy'n mynd i'r afael ag anghenion cyffredin neu gyflawni graddfa darparu effeithlon.
- Gwerthuso a blaenoriaethu rhestr fer o brosiectau hyd at uchafswm o £3 miliwn fesul lle (fel y diffinir yn y [rhestr termiau](#), ar gyfer Cronfa Adfywio Cymunedol y DU rydym yn diffinio lle yn haen is, daearyddiaeth fwrdeistrefol ac unedol, (gweler [rhestr o leoedd](#)), ac o blith honno y bydd llywodraeth y DU yn dewis prosiectau.
- Cyflwyno'r rhestr fer i lywodraeth y DU a fydd yn asesu'r cynigion a dewis prosiectau yn seiliedig ar y meini prawf a nodwyd yn [adran 6](#) isod.
- Cyhoeddi cytundebau grant i gynigwyr llwyddiannus ar ôl i'r cyllid gael ei gytuno gan lywodraeth y DU, ac yna ymgymryd â gweithgareddau monitro a sicrwydd.

I sicrhau bod y 100 lle â blaenoriaeth yn gallu ymgymryd â'r swyddogaethau a nodwyd uchod, bydd yr awdurdodau arwain yn y 100 lle â blaenoriaeth yn cael capasiti cynllun fel y nodwyd yn adran 4.1. Nid yw capasiti cyllid ar gael ar gyfer awdurdodau arweiniol yn llefydd eraill.

Dylai awdurdodau arweiniol gyflwyno rhestr fer o brosiectau i'r Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol erbyn hanner dydd, dydd Gwener 18 Mehefin 2021 drwy anfon e-bost at UKCommunityRenewalFund@communities.gov.uk.

Ni fydd cynigion sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau neu nad ydynt yn cael eu cyflwyno drwy'r awdurdod arweiniol yn cael eu hystyried. Yna,

byddwn yn cadarnhau pa brosiectau a fydd yn cael cyllid o ddiwedd Gorffennaf 2021 ymlaen.

Bydd pob awdurdod arweiniol yn cael eu hasesu yn erbyn y gofynion a nodwyd yn y ddogfen Gofynion Awdurdod Arweiniol. Yn ogystal, dylai Awdurdodau Arweiniol gymryd i ystyriaeth [Safonau Grantiau Swyddfa'r Cabinet](#) mewn modd priodol a chymesur, a'u defnyddio fel enghreifftiau o arfer dda a ffynonellau gwybodaeth.

Gall methiant gan awdurdod arweiniol i arddangos darpariaeth yn unol â'r gofynion arwain at wrthod y cynigion y cyflwyna.

6. Asesu cynigion gan lywodraeth y DU: Meini prawf asesu

Bydd llywodraeth y DU yn asesu pob cynnig ledled y DU yn erbyn y meini prawf asesu isod.

Y Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol i gymeradwyo neu wrthod cynnig. Lle bynnag sy'n briodol, bydd llywodraeth y DU yn ceisio cyngor gan y Gweinyddiaethau Datganoledig wrth lunio rhestr fer ar y prosiectau a fydd yn cael eu cyflwyno yn eu hardaloedd daearyddol, gan gynnwys ymarferoldeb ac ymlyniad â darpariaeth gyfredol.

6.1 Meini prawf porth y DU gyfan

Rhaid i bob prosiect arfaethedig ddod i law erbyn y dyddiad cau, gyda chynnig cyflawn sy'n dangos:

- Y bydd yn cael ei gyflawni (gan gynnwys yr holl wariant a achoswyd) erbyn 31 Mawrth 2022
- Ymateb i angen sydd wedi'i adnabod yn y prosiectws
- Nad yw'n dyblygu unrhyw ddarpariaeth genedlaethol neu leol arall
- Nad yw'n mynd yn groes i bolisi cenedlaethol
- Y bydd yn cael ei gyflawni gan sefydliad sydd wedi'i gyfansoddi'n gyfreithiol sy'n gallu derbyn arian cyhoeddus
- Yn gallu cyflawni gweithgareddau'r prosiect yn unol â gofynion rheolaeth arian cymorth/Cymorth Gwladwriaethol

- Yn cael ei gyflwyno yn unol â gofynion brandio.
- Ar gyfer Prydain Fawr yn unig: Wedi'i gyflwyno gan yr awdurdod arweiniol. Ni fydd cynigion sy'n cael eu cyflwyno'n annibynnol oddi ar yr awdurdod arweiniol yn cael eu derbyn.
- Ar gyfer Prydain Fawr yn unig: Rhaid i'r awdurdod arweiniol ddangos ei fod wedi cynnal proses agored lle'r oedd sefydliadau yn cael eu gwahodd i gyflwyno cynigion.

Rhaid i brosiectau lwyddo yn yr holl feini prawf porth i gael eu hystyried i'w dethol. Bydd methu ag arddangos yn ddigonol un neu fwy o'r meini prawf hyn yn arwain at y prosiect yn cael ei wrthod.

6.2 Meini prawf dethol y DU gyfan

Bydd ceisiadau yn cael eu trefnu i ymateb i'r themâu addasrwydd strategol, ac ymarferoldeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth ynghylch y meini prawf a'r dull gweithredu sydd ynghlwm â dewis prosiectau llwyddiannus ym Mhrydain Fawr ac yng Ngogledd Iwerddon yn fuan, ochr yn ochr â rheolau a chanllawiau i ymgeiswyr ac awdurdodau arweiniol.

6.2.1 Addasrwydd Strategol

Bydd yr holl brosiectau a gynigir yn cael eu hasesu yn erbyn yr ystyriaethau addasrwydd strategol canlynol:

- Lefel o gyfraniad tuag at anghenion lleol a fynegwyd yng nghynlluniau lleol perthnasol, gyda thystiolaeth o gefnogaeth leol
- Lefel o gyfraniad tuag at flaenoriaeth buddsoddi a fynegwyd ac a nodwyd yn adrannau 3.2 i 3.5 y prosiectws.
- Ehangder y cyfraniad at amcanion sero net, fel y nodwyd yn 3.1.1, neu ystyriaethau amgylcheddol ehangach (ddim yn berthnasol i ymyriadau cymorth cyflogaeth)
- Ehangder y gall y prosiect lywio Cronfa Ffyniant Gyffredinol y DU drwy ddysg drosglwyddadwy neu gyfle i ddatblygu i bartneriaid lleol a llywodraeth y DU
- Ehangder y mae'r prosiect yn dangos arloesedd wrth ddarparu gwasanaeth, drwy:
 - gyflwyno dulliau cyflawni newydd (er enghraifft, rhoi moddau cyflawni newydd dan brawf)

- dulliau gweithredu integredig ar draws themâu polisïau neu
- gwaith ar y cyd ar draws mwy nag un lle

6.2.2 Ymarferoldeb, effeithiolrwydd, ac effeithlonrwydd

Bydd yr holl brosiectau a gynigir yn cael eu hasesu yn erbyn yr ystyriaethau ymarferoldeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd canlynol:

- Y gellir ei gyflawni fel y cynigiwyd erbyn Mawrth 2022 gan adnabod cerrig milltir realistig
- Adnabod risgiau'r prosiect a'u lliniaru'n ddigonol, gan gynnwys rheolyddion rheoli ar lefel prosiect
- Yr ymgeisydd yn gosod dull cyflawni effeithlon, gan gymryd i ystyriaeth y lefel o arloesedd a gynigir ac yn gweithredu ar raddfa briodol. Bydd hyn yn cynnwys asesiad gwerth am arian sy'n cymryd i ystyriaeth:
 - y lefel cyfraniad at allbynnau'r rhaglen ar gyfer y cyllid a geisiwyd
 - y swm o gyllid cyfatebol neu drosoledd a gynigiwyd i uchafu effaith (ddim yn berthnasol i ymyriadau cyflogaeth)
- Na fyddai'r prosiect yn parhau heb gyllid neu y gellid ei gyflawni ar raddfa lai yn unig
- Strategaeth fonitro a gwerthuso effeithiol wedi'i hadnabod ar gyfer y prosiect

6.3 Gwybodaeth ychwanegol ynghylch asesu cynigion ym Mhrydain Fawr

Ym Mhrydain Fawr, bydd llywodraeth y DU yn rhoi cap o £3 miliwn fesul lle ar gyfer buddsoddiad wrth ddewis y prosiect terfynol. Yn ogystal ag asesiad yn erbyn yr ystyriaethau addasrwydd strategol ac ymarferoldeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, gall Gweinidogion ddewis bodloni'r cyfuniad canlynol o ystyriaethau ychwanegol:

- Sicrhau rhaniad thematig rhesymol o'r prosiectau cymeradwy (e.e. sgiliau, busnes lleol, cymunedau a lleoedd, cymorth cyflogaeth)
- Sicrhau lledaeniad cytbwys o'r prosiectau cymeradwy ledled Prydain Fawr
- Mae sicrhau bod cydbwysedd o'r prosiectau cymeradwy rhwng y rhai sy'n canolbwyntio ar leoedd â blaenoriaeth a lleoedd heb flaenoriaeth yn rhoi ystyriaeth briodol i leoedd â blaenoriaeth

- Lle na ellir gwahaniaethu rhwng dau neu fwy o brosiectau ar sail y meini prawf dethol a blaenoriaethu lle/lleoedd perthnasol drwy'r mynegai (h.y. lle mae prosiectau yn cael yr un sgôr ac yn ymdrin â'r un ddaeryddiaeth er enghraifft), gall Gweinidogion wneud penderfyniadau rhwng prosiectau yn seiliedig ar eu barn ynghylch y gwerth gorau am arian o ran cyflawni amcanion y rhaglen.

Dylai ymgeiswyr nodi mai proses gystadleuol yw hon ac nid oes lleiafswm ar gael fesul lle. Lle nad yw cynigion yn bodloni safonau sylfaenol, ni fyddant yn cael cefnogaeth.

6.4 Gwybodaeth ychwanegol ynghylch asesu cynigion o Ogledd Iwerddon

Gall gwerth prosiectau fod hyd at y cyfanswm dyraniad o £11 miliwn i Ogledd Iwerddon. Wedi dweud hynny, dylai ymgeiswyr nodi mai proses gystadleuol yw hon, a bydd llywodraeth y DU yn chwilio i ddewis portffolio o brosiectau o feintiau gwahanol, sy'n ymdrin ag ystod o themâu a daearyddiaeth, yn benodol ar nifer ac ansawdd y cynigion a geir.

Cydnabyddwn bwysigrwydd nid yn unig bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ond hefyd rhoi ystyraeth ddyledus i'r ystyriaethau cydraddoldeb ychwanegol sy'n berthnasol yng ngogledd Iwerddon.

Yn ogystal ag asesiad yn erbyn yr ystyriaethau addasrwydd strategol ac ymarferoldeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, gall Gweinidogion ddewis bodloni'r cyfuniad canlynol o ystyriaethau ychwanegol:

- Sicrhau rhaniad thematig rhesymol o'r prosiectau cymeradwy (e.e. cyflogaeth, sgiliau, cymunedau a lleoedd, busnes lleol)
- Sicrhau lledaeniad daearyddol teg o'r prosiectau cymeradwy ledled Gogledd Iwerddon
- Lle mae dau nwy fwy o brosiectau yn cael yr un sgôr ym mhob meini prawf asesu, ond ni ellir ariannu'r cwbl, mae gan y Gweinidogion yr hawl i ddewis y prosiect(au) maen nhw'n ystyried i fod yn werth gorau am arian o ran cyflawni amcanion y rhaglen.

7. Trosoleddu cyllid arall

Mae llywodraeth y DU yn annog ymgeiswyr ac awdurdodau arweiniol i uchafu trosoledd cyllid arall. Daw hyn â sawl budd, gan gynnwys unioniad gwell â darpariaeth arall a darpariaeth effeithlon sy'n cynyddu gwerth am arian.

Cydnabyddwn na fydd pob prosiect nac ymgeisydd yn gallu sicrhau cyllid cyfatebol, ac nid oes disgwyl hynny ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi cyflogaeth. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr ac awdurdodau arweiniol nodi bod gwerth am arian yn ystyriaeth wrth ddedol. Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth y pecyn cyllid cyffredinol i bob prosiect, gan gynnwys unrhyw gyllid cyfatebol.

8. Cyllid a thaliadau grant

Ar ôl i'r broses ddedol ddod i ben, bydd y Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ymgymryd â chytundebau â'r canlynol:

- Awdurdodau arweiniol - ar gyfer pecyn cytunedig o brosiectau yn ogystal â chymorth cydlynu cynigion a gwerthuso lle bynnag sy'n berthnasol (fel y nodir yn adrannau 4.1 a 5.3)
- Darparwyr prosiect unigol (ymgeiswyr prosiectau llwyddiannus) yng Ngogledd Iwerddon

Bydd pob cytundeb yn nodi'r hawliau a rhwymedigaethau ar gyfer pob parti a bydd templed yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach yn y gwanwyn.

Bydd hwn yn cynnwys y dull ar gyfer talu awdurdodau arweiniol ym Mhrydain Fawr, a darparwyr prosiectau unigol yng Ngogledd Iwerddon. Rydym yn rhagweld y byddwn yn gwneud taliad cychwynnol ar ddechrau'r prosiect ac yna ail daliad ar ôl ei gwblhau. Mae hwn wedi'i ddylunio i gyflymu darpariaeth gynnar a symleiddio'r broses fonitro a hawlio mewn cymhariaeth â chronfeydd cynt yr UE.

Er mwyn osgoi amheuaeth, rydym yn disgwyl/yn ei gwneud yn ofynnol i bob grant gael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd, a bydd hyn yn ddarostyngedig i fonitro ac adolygiad terfynol. Bydd unrhyw danwariant yn cael ei adfer a/neu heb ei dalu.

9. Monitro a gwerthuso

Mae'r gofynion monitro a gwerthuso i ymgeiswyr wedi'i nodi yn adran 5.2 uchod.

Mae llywodraeth y DU yn rhoi mwy o bwyslais ar werthuso o safon uchel, sy'n hanfodol i ddeall beth sy'n gweithio. I gefnogi hyn, ar lefel genedlaethol, byddwn yn sefydlu rhwydweithiau gwerthuso i gefnogi datblygiad cynlluniau gwerthuso, rhannu arfer orau a chefnogi'r ffocws ar ofynion dangosyddion cynhwysfawr ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Bydd gweithgareddau cenedlaethol eraill yn cynnwys:

- Dechrau datblygu'r isadeiledd ategol sydd ei angen i hwyluso rhannu gwybodaeth a data ynghylch anghenion defnyddwyr yn effeithiol.
- Ymgymryd â phroses werthuso gynhwysfawr i ddeall pa mor effeithiol yw'r strwythurau cyflawni a phrosesau busnes, gan gynnwys effaith cyllid capasiti.
- Ymgymryd â gwerthusiadau sy'n ystyried effaith y cyllid ar themâu lleoedd a buddsoddiadau.

Bydd y gwaith monitro a gwerthuso yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r Ganolfan What Works er Twf Economaidd Lleol i atgyfnerthu ac adeiladu ar eu gwaith hyd yn hyn. Bydd hefyd yn edrych ar adeiladu dulliau cyfredol, megis Fframwaith Monitro a Gwerthuso Gronfa'r Dref.

10. Amserlenni

Wedi'i gynnwys yma mae crynodeb o amserlenni a dyddiadau allweddol Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.

3 Mawrth 2021

- Llywodraeth y DU yn cyhoeddi prospectws Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.
- Cyhoeddir rhestr o leoedd â blaenoriaeth ac awdurdodau arweiniol ym Mhrydain Fawr yn y prospectws.
- Yn ystod mis Mawrth, awdurdodau arweiniol i lansio gwahoddiadau am gynigion gan eu lleoedd ym Mhrydain Fawr. Llywodraeth y DU yn

lansio cystadleuaeth prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

1 Ebrill 2021

- Awdurdodau arweiniol y 100 lle â blaenoriaeth ym Mhrydain Fawr yn cael asesu cynigion a chydlynu cyllid capasiti.

18 Mehefin 2021

- Awdurdodau arweiniol ym Mhrydain Fawr yn cyflwyno rhestr fer o gynigion prosiectau i lywodraeth y DU eu hasesu.
- Ymgeiswyr yng Ngogledd Iwerddon yn cyflwyno eu cynigion i lywodraeth y DU i'w gwerthuso a'u hasesu.

Diwedd Gorffennaf 2021 ac ymlaen

- Llywodraeth y DU yn cyhoeddi prosiectau llwyddiannus ar gyfer Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.
- Cyfran gyntaf o ffrydiau cyllid i awdurdodau arweiniol (Prydain Fawr) a phrosiectau (Gogledd Iwerddon).

Tachwedd a Rhagfyr 2021

- Adolygiadau monitro canol cyfnod y prosiectau gydag awdurdodau arweiniol (Prydain Fawr) a darparwyr prosiectau yng (Ngogledd Iwerddon).

31 Mawrth 2022

- Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn dod i ben.

Chwarter 1, 2022-23

- Ail gyfran o ffrydiau cyllid i awdurdodau arweiniol (Prydain Fawr) a phrosiectau (Gogledd Iwerddon).

Atodiad A: Rhestr Termau

100 lle â blaenoriaeth

Byddwn yn blaenoriaethu cynigion sy'n targedu'r 100 lle â blaenoriaeth uchaf yn seiliedig ar fynegai gwytnwch economaidd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU. Byddwn hefyd yn rhoi cyllid capasiti i awdurdod arweiniol y 100 lle hyn.

Mynegai gwytnwch economaidd

Ym Mhrydain Fawr, adnabuwyd lleoedd â blaenoriaeth gan ddefnyddio mynegai o wytnwch economaidd sy'n mesur cynhyrchedd, incwm yr aelwyd, diweithdra, sgiliau a dwysedd poblogaeth. Bydd nodyn methodolegol yn cael ei ddarparu i egluro sut cafodd y mynegai ei ddatblygu. Mae'r prosiectws hwn yn nodi'r 100 lle â blaenoriaeth uchaf yn ôl y mynegai hwn a'r awdurdodau arweiniol cysylltiedig.

Awdurdod arweiniol

Y sefydliad sy'n gyfrifol am wahodd cynigion prosiectau ar gyfer lle, gwerthuso cynigion prosiectau a chyflwyno rhestr fer o brosiectau i lywodraeth y DU ym Mhrydain Fawr. Ymhlith y rhain mawr cynghorau sir, Awdurdodau Maerol Cyfunedig, Awdurdod Llundain Fwyaf ac awdurdodau unedol. Gweler y [rhestr](#). Ym Mhrydain Fawr, byddwn yn derbyn prosiectau gan awdurdodau arweiniol yn unig.

Ymgeisydd y prosiect

Ledled y DU, mae ymgeiswyr prosiectau yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, brifysgolion, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol, a grwpiau busnes ymbarél. Ym Mhrydain Fawr, dylai ymgeiswyr prosiectau gyflwyno cynigion i awdurdodau arweiniol a fydd yn gwerthuso'r prosiectau ac yn cyflwyno rhestr fer i lywodraeth y DU. Yng Ngogledd Iwerddon, dylai ymgeiswyr prosiectau gyflwyno cynigion yn uniongyrchol i lywodraeth y DU.

Darparwr prosiect

Ymgeiswyr prosiectau llwyddiannus ledled y DU.

Lle

Dyma'r lleoedd a fydd yn cael buddsoddiad. At ddibenion Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, diffinnir "lleoedd" ar y raddfa ardal, unedol neu fwrdeistrefol yn Lloegr, ardaloedd cyngor yn yr Alban ac unedau yng Nghymru. Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU yn unig, bydd manylion ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael eu cyhoeddi yn hwyrach eleni. Mae pob ardal yng Ngogledd Iwerddon yn gymwys am gyllid a gall ymgeiswyr wneud cais yn uniongyrchol i lywodraeth y DU.

Rhestr Fer o'r Prosiectau

Ym Mhrydain Fawr, dylai awdurdodau arweiniol gyflwyno rhestr fer o'r prosiectau i lywodraeth y DU ar ôl gwahodd a gwerthuso cynigion yn lleol.